O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2017 Rhif 853 (Cy. 207)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4060 (Cylchfan Abercannaid i Gylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Terfyn Cyflymder 40 mya a Dileu Cyfyngiadau) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *23 Awst 2017* |
| *Yn dod i rym* | *25 Awst 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A4060 Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 82(2), 83(1), 84(1) a (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu De Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Awst 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4060 (Cylchfan Abercannaid i Gylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Terfyn Cyflymder 40 mya a Dileu Cyfyngiadau) 2017.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 82(2) a 83(1) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22) a pharagraffau 59(3) a 60(2) o Atodlen 8 iddi, amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40), ac amnewidiwyd adran 84(2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22) a pharagraff 61 o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion yr aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A4060 Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais rhwng Cylchfan Abercannaid a Chylchfan Dowlais Top ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

## Cyfyngiad

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

## Dileu Cyfyngiadau

**4.** Bydd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf 1984.

---

(**2**) 1984 p.27; diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8(2) i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) (mae'r amnewidiadau yn cael effaith drwy O.S. 2013/1682 yn ddarostyngedig i'r darpariaethau arbed a throsiannol a bennir yn adran 15 o Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac Atodlen 8 iddi ac adran 50(5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20)).

**Dirymiadau**

**5.** Mae Gorchymyn Cefnffordd (yr A470 a'r A4060) (Abercynon – Pentre-bach, Morgannwg Ganol) (Dileu Cyfyngiadau) a (Terfyn Cyflymder 40 mya) 1985(**3**) wedi ei ddirymu i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darn perthnasol o'r gefnffordd a bennir ym mharagraff 1 o Atodlen 1.

**6.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A470 a'r A4060 (Abercynon – Pentre-bach, Morgannwg Ganol) (Dileu Cyfyngiadau a Therfyn Cyflymder 40 mya) 1985 (Amrywio) 1995(**4**) wedi ei ddirymu.

**7.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A4060 (Merthyr Tudful, Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) (Dileu Cyfyngiadau) 2000(**5**) wedi ei ddirymu.

**8.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A4060 (Pentre-bach, Merthyr Tudful) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2003(**6**) wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 23 Awst 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Terfyn Cyflymder 40 mya

1. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 320 o fetrau i'r de o'i chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Cylchfan Pentre-bach hyd at ei chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Leo, gan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol Cylchfan Pentre-bach a Chylchfan Leo.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 47 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Leo hyd at ei chyffordd â'r gylchfan honno.

(**3**) O.S. 1985/1760
(**4**) O.S. 1995/681
(**5**) O.S. 2000/2701 (Cy. 176)
(**6**) O.S. 2003/1137 (Cy. 153)

**ATODLEN 2**
**Dileu Cyfyngiadau**

1. Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Abercannaid hyd at bwynt 320 o fetrau i’r de o’i chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Cylchfan Pentre-bach.

2. Y darn o gerbytffordd tua’r gogledd y gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Leo hyd at bwynt 195 o fetrau i’r gogledd o’r gyffordd honno.

3. Y darn o gerbytffordd tua’r de y gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 230 o fetrau i’r gogledd o’i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Leo hyd at bwynt 47 o fetrau i’r gogledd o’r gyffordd honno.

4. Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 85 o fetrau i’r de-orllewin o’i chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Mountain Hare hyd at bwynt 190 o fetrau i’r gogledd o’i chyffordd ag ochr ogleddol y gylchfan honno, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol Cylchfan Mountain Hare.

5. Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 825 o fetrau i’r de-orllewin o’i chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Fach Dowlais hyd at ei chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Cylchfan Dowlais Top, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol Cylchfan Fach Dowlais.